**Teithio gan Menna George, Y Cymro, Mawrth, 2001**

# Chwe dydd, dwy wlad, pedair dinas, un fferi, saith bws, 51 awr o deithio a 3054 Km… dyna 'dw i wedi ei wneud!

**Gan: Menna M George**

**Dyna, yn ddi-os, oedd wythnos mwyaf symudol 'mywyd hyd yn hyn! Roedd wedi dod yn amser stampio 'mhasport eto, felly man a man oedd cyfuno hynny gydag 'ychydig' o deithio.**

Dechreuodd y cyfan am 10.30 fore Iau, Chwefror 16 gyda thaith hanner awr, 17Km tua'r dwyrain o Gaiman i Drelew ar fws y cwmni lleol '28de Julio' (cwmni a enwyd i goffáu glaniad y Cymry cyntaf hynny ym Mhorth Madryn ym 1865).

Mae hon yn daith gyfarwydd ac annwyl i mi bellach. Dwi'n mwynhau teithio tua Threlew a sylwi ar y peithdir yn araf droi'n dir datblygedig ... gadael tir diffaith, hudol y dyffryn sydd wedi ei hanner orchuddio â llwyni isel llwyd-wyrdd, a gweld y ddinas yn araf amlygu ei hun.

Gadael y coed Poplys gwyrdd, talsyth, urddasol am gyfnod, a chael yn eu lle, adeiladau aml-lawr Trelew i dorri'r gorwel. (Ac mae'n rhaid pwysleisio'r 'am gyfnod' fan hyn, gan mai merch o'r wlad ydw i, a merch o'r wlad fydda i am byth ... ond, o adael y wlad, mae dyn yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddo yno gymaint yn fwy pan yn dychwelyd!)

Wedi cyrraedd Trelew cafwyd arhosiad pedair awr yn hwy na'r disgwyl gan nad oedd system awyru'r bws 'El Rapido' oedd i'm cludo i Fuenos Aires yn gweithio, felly amhosib oedd hyd yn oed meddwl am gychwyn y daith ugain awr, 1300Km tua'r gogledd. (Rhaid cofio ein bod yng nghanol ein haf yma ym Mhatagonia, felly gyda'r gwres yn llygad yr haul yn codi'n rheolaidd i 35ºC i 38ºC, ffôl iawn fyddai ystyried teithio. Buasem wedi pobi cyn cyrraedd Porth Madryn hyd yn oed!)

O'r diwedd, am 4.30 y prynhawn dyma adael Trelew ar fynydd o fws moethus, cyfforddus a chyfforddus o ran tymheredd! Braf oedd cael gorwedd yn ôl yn y 'semi-cama' ac ymlacio'n llwyr! (Rhaid fy mod wedi hen ymgartrefu fan hyn yn yr Ariannin ... wedi deg mis yma 'dw i wedi mabwysiadu dau o arferion mwyaf pleserus y wlad - sef yfed mate, a chymryd siesta! Wrth gwrs, cyn gynted â daeth y gwyliau i ben, a'r gwersi'n ail-ddechrau daeth diwedd ar y cymryd siesta yn ystod y dydd, ond yn ystod y gwyliau roedd yn braf cael 'dwyn' rhyw awr fach o gwsg yn y prynhawn er mwyn torri'r blinder mawr ddeuai gyda'r gwres llethol.)

Rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi cyrraedd 'Cwm Cwsg' ymhell cyn i'r bws deithio'r awr roedd angen arnom i gyrraedd Porth Madryn i gasglu rhagor o deithwyr oedd â'u golygon tua'r gogledd a'r 'Capital Federal' fel oedd pawb yn dweud.

Erbyn saith o'r gloch roeddwn yn teimlo 'fel 'deryn' fel 'dyn ni'n dweud gartre', ac roedd yn hynod ddiddorol edrych trwy'r ffenest ar y milltiroedd yn llithro heibio a'r tirwedd yn raddol newid. Wrth deithio tua'r gogledd roedd y gwahaniaeth yn y llysdyfiant yn hysbysebu'r cynnydd ym maint y glaw sy'n disgyn. Yn raddol, rhoddodd y peithdir sych le i dir mwy ffrwythlon.

Yn lle llwyni isel, dreiniog, llwydion y paith roedd yna fwyfwy o dir wedi ei drin. Yn awr roedd yna gaeau ar gaeau o alfalfa, gwenith a blodau'r haul llachar. Yn lle gwastatir bron di-dor y paith roedd yn awr gennym ychydig amrywiaeth yn y tirwedd, gydag ambell i fryn i amrywio'r olygfa, ond byddwn yn dal i deithio am filltiroedd lawer heb weld na char na lori na bws.

Am 10 y nos cafwyd tri-chwarter awr o seibiant o deithio pan arhosom yn San Antonio am fwyd a chyfle i ystwytho'r corff, ond wedyn nôl a ni ar ein taith tua'r gogledd a theithio'n ddi-dor nes i ni gyrraedd Buenos Aires tua 1 o'r gloch y prynhawn canlynol!

Fel ddywedais i ar y dechrau ... os teithio, teithio! Wrth gwrs, mae Buenos Aires yn enfawr. Buom yn teithio'n ddi-dor am ymhell dros awr yn y ddinas ei hun cyn cyrraedd yr orsaf ganolog ('Retiro'). Gorsaf deulawr enfawr yw hon, gyda digon o le i ryw 70 i 80 o fysus i fod yno ar yr un pryd!


Mae bron â bod gymaint o faint a fy mhentref i adref! Buasech yn meddwl y buaswn i'n awchu am ddod o hyd i'r gwesty agosaf er mwyn cael cawod a phryd o fwyd ar ôl teithio am dros bedair awr ar hugain ond na!


## Llygaid

Roedd fy llygaid ar y gorwel - ar draws ceg yr afon La Plata yn Uruguay, felly mewn â fi i dacsi ac i'r harbwr i ddal fferi (hydrofoil) am daith o 50Km o bellter, awr o hyd. Am 5.30 y prynhawn, dydd Gwener Chwefror 16 gyda stamp Uruguay yn fy mhasport, roeddwn wedi cyrraedd fy nôd!

Erbyn hyn roeddwn mewn gwlad arall oeddwn, ond yn fwy na hynny teimlais 'mod i mewn byd arall. Bron nad o'wn i'n teimlo 'mod i wedi camu nôl mewn amser, ac yn ôl i Ewrop. Roedd y strydoedd yn gul, wedi eu hymylu â thai aml-lawr a'u gorchuddio â cherrig crynion llyfn ac roedd coed ir ym mhobman. Bach iawn o drafnidiaeth oedd ar yr heolydd ac roedd y bobl yn gwrtais a thawel... hwyrach fod y ffaith fod gan bron pob am-yn-ail berson fflasg Thermos o ddwr poeth o dan un gesail a chwpan o fate'n nythu yn y llaw arall rhywbeth i wneud â hyn!

Pan yn mwynhau 'mhryd hwyrol o basta yn yr awyr agored uwchlaw'r hen harbwr hynafol y noson honno teimlais yn wirioneddol ffodus a breintiedig. Roeddwn wedi ymlacio'n llwyr ac yn sylweddoli ac yn gwerthfawrogi'r fraint o gael bod yn Ne America am gyfnod.





**Teithio gan Menna George, Y Cymro, Mawrth, 2001**

Y DYDD canlynol treuliais y bore yn crwydro ac eisteddian am-yn-ail, ac yn bod yn 'dwrist' go iawn cyn dal bws am daith 120Km i'r gorllewin i ddinas Fray Bentos.

Ie ... Fray Bentos ddywedais i! Ac oes, mae ganddo rywbeth i wneud â'r '*corned beef*' a'r '*steak and kidney pies*' 'na 'da'r '*pastry*' yn codi'n gwmwl uwch eu pennau roeddem yn arfer eu bwyta flynyddoedd yn ôl!




## 'Fray Bentos: bythgofiadwy oherwydd y mawredd hanesyddol a diwydiannol.'

Amgueddfa yw'r ffatri bellach, a dyna oedd yr atyniad i fi ... cael gweld man cychwyn aml i bryd bwyd fy mhlentyndod!

O dan haul crasboeth Urugauay ar Chwefror 18 ce's fy nhywys o gwmpas y 'Museo de la Revolucion Industrial', Fray Bentos gan wyres un o weithwyr cyn-ffatri'r cwmni cig 'Liebig'. O gael yr holl hanes, ac o weld holl adrannau'r ffatri yma oedd yn cyflogi 4000 o weithwyr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac yn lladd 10,000 o wartheg, 10,000 o ddefaid, 4,000 o foch a 4,000 o loi yn ddyddiol, roedd yn rhaid talu teyrnged i fawredd y lle.

Yma roedd gorsaf gynhyrchu trydan cyntaf Uruguay - yn eiddo personol i'r cwmni. Yn eiddo iddynt hwy hefyd roedd gorsaf dân ac harbwr dwr dwfn! Does rhyfedd bod pawb yn dweud mai dyma darddle'r Chwildro Diwydiannol yn Ne America! Profiad bythgofiadwy oedd cael bod yno.



### Bythgofiadwy

Os oedd fy mhrofiadau yn Fray Bentos yn fythgofiadwy oherwydd y mawredd hanesyddol a diwydiannol, roedd fy mhrofiadau yn fy '*mhort of call*' nesaf, 30Km i'r gorllewin dros y ffin yn ôl yn Yr Ariannin yn fythgofiadwy oherwydd mawredd y rhealtwch a'r swn!

'El Carnaval de Pais' oedd yr atyniad mawr yn Gualeguaychu, a che's i ddim mo'n siomi! Yn ôl y sôn, carnifal Gualeguaychu yw'r ail yn unig o ran maint i un Rio yn Ne America! Wrth gwrs, dydw i ddim wedi gweld y fath beth yn fy myw! Rhibidires di-dor o bobl ac arddangosfeydd symudol lliwgar swnllyd yn ymlwybro'n gyson o ddeg y gloch y nos tan dri o'r gloch yn y bore bach- heb fynd mewn cylch cofiwch ...un waith yn unig roeddwn yn gweld pob dim!

Roeddwn yn fy elfen. Roedd yn nefolaidd ... gyda phawb mewn hwyliau da, yn neidio ar eu traed i ymuno yn yr hwyl pan roedd yr awydd yn codi. A braf yw medru dweud fan hyn na welais unrhyw fath o drais na cham-ymddwyn o gwbl - hyd yn oed wrth gerdded am adref am hanner awr wedi tri y bore!

O Gualeguaychu dyma ddechrau'r daith hir nôl i Chubut, 220Km tua'r de yn ôl i Fuenos Aires am ddiwrnod yn gyntaf... Doedd yr wyth awr ar hugain oedd gen i yn 'y ddinas fawr ddrwg' ddim yn ddigon i weld chwarter y pethau y buaswn wedi dymuno ei weld. 'Tamaid i aros pryd' yn unig a gefais, ond roedd yn ddigon i godi archwaeth am fwy, a gobeithio caf fynd yn ôl yno a threulio digon o amser yno i ddiwallu'r chwant am fwy a godwyd y tro yma. Mi es ar wibdaith pedair awr o'r ddinas er mwyn gweld cymaint â phosib ohoni, a chael peth o'i hanes diddorol.

Rhaid i mi gyfaddef 'mod i wedi blino" lân erbyn hyn - roeddwn wedi bod ar fynd yn ddi-dor ers chwe diwrnod, felly am ddeg y nos, nos Fawrth, mewn gwres o 33ºC ffarweliais yn fodlon fy myd â'r gogledd a theithio'r daith 1300Km, 20 awr yn ôl i'm cartref mabwysiedig yn nhalaith Chubut.

Yn hapus, os yn flinedig, cyrhaeddais 'terminal' Trelew am 6.35 nos Fercher, a chamu'n syth ar fws '28 de Julio' a theimlo'n gartrefol braf wrth i'r gyrrwr ddweud wrtha i "A Gaiman, no?", a fi'n ei ateb â "Por supesto. Gracias!" (Wrth gwrs. Diolch!)

Bron nad allwn i ddweud mai'r 17Km yma oedd cilometrau mwyaf cyffrous y daith. Roeddwn ar fy ffordd 'gartre', ac yn hynod falch o weld y paith a'r Poplys cyfarwydd wrth i'r bws wibio tuag at Gaiman, cyn fy ngadael ar waelod Heol Michael D. Jones i gerdded yn fodlon tuag at Dy Camwy a'r dishgled o de gorau ers chwe niwrnod!



Canol: Carnifal

Uchod a Chwith: Amgueddfa Fray Bentos

Gan: Menna M. George (parhad o'r wythnos diwethaf).